# LLYTHYR NEWYDDION

Chwefror 2025

hwb
Iechyd a Llesiant
Health and Wellbeing

## Croeso

Croeso i rifyn cyntaf ein diweddariad chwarterol ar y gwaith adeiladu sy'n digwydd yn Hwb Iechyd a Llesiant Caerfyrddin. Drwy'r cylchlythyr hwn byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd y gwaith adeiladu yn ogystal â'r hyn sydd ar y gweill. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cylchlythyr hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein gweithgareddau budd cymunedol.

### Y Cynnydd Hyd yn Hyn

- Dechreuodd y prosiect ar 15 Gorffennaf 2024 ac rydym yn wythnos 29 ar hyn o bryd.
- Mae draeniau mewnol wedi'u gosod gyda chast llawr gwaelod newydd.
- Mae gwaith dur eilaidd ar bob llawr ar gyfer gwagleoedd to, sgriniau gwydr, peiriannau codi, a rhaniadau sy'n plygu bron â chael ei gwblhau, gyda gwaith dur ar gyfer sgrin yr ystafell gyfarpar yn cael ei osod ar hyn o bryd.
- Mae'r gwaith o osod y ffrâm ddur ar gyfer yr ystafell gyfarpar ar y to wedi'i gwblhau ac mae'r system ffrâm ddur a'r to yn cael eu gosod ar hyn o bryd.
- Mae gwaith mewnol bellach wedi dechrau ar bob llawr gyda leinin sych a gwaith mecanyddol a thrydanol.
- Mae sgaffaldau wedi eu gosod ar yr ochr ddeheuol ac yn cael eu gosod ar yr ochrau dwyreiniol a gorllewinol i hwyluso gwaith ar y to a'r ffasâd.
- Ffurfir agoriadau newydd yn y ffasâd ar gyfer sgriniau llenfur.

BOUYGUES UK
BUILDING FOR LIFE

## Adeiladu sydd i ddod

- Parhad gwaith dur eilaidd, leinio sych a gwaith mecanyddol a thrydanol i bob llawr.
- Cychwyn ar y nenfydau, addurno, system blymio integredig a gosod lwfrau.
- Cyflawni a gosod cyfarpar mecanyddol a thrydanol ar lefel y to.


## Gwerth Cymdeithasol

Fel rhan o'n darpariaeth gwerth cymdeithasol byddwn yn ymgysylltu ag ysgolion lleol, grwpiau cymunedol ac yn gweithio gyda phartneriaid cyflogaeth lleol i gynnig cyfleoedd cyflogaeth. Fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu ag addysg roedd Bouygues UK a'n partner cadwyn gyflenwi, FP Hurleys and Son, yn falch o allu cefnogi Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth i gael mynediad i gyfres o weithdai Llesiant. Roedd y gweithdai wedi'u cynllunio'n benodol i bobl ifanc ddeall sut i ofalu am eu llesiant a strategaethau sy'n gallu cefnogi eu llesiant meddyliol.

Roeddem hefyd yn hapus i gael y cyfle i noddi coeden Nadolig Rhodfa Santes Catrin ym mis Rhagfyr, a safai'r tu allan i brif fynedfa'r farchnad.



Ailosod pilen un haen yn y to



Leinin sych a gwaith mecanyddol a thrydanol yn y Parth Adloniant

**Eich diogelwch chi sy'n bwysig i ni.**

HEALTH & SAFETY A SHARED COMMITMENT!

Mae Bouygues UK yn cymryd pob rhagofal i'ch cadw'n ddiogel trwy gydol y broses adeiladu.

**Peidiwch â mynd i mewn i'r safle adeiladu, oni bai ei fod yn rhan o ymweliad a drefnwyd ymlaen llaw gan ein tîm prosiect.**

**Cynllun Adeiladwyr Ystyriol**

CONTRACTOR AND SUPPLIER PARTNER
CONSIDERATE CONSTRUCTORS SCHEME

Mae ein prosiectau wedi'u cofrestru a'u monitro gan y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn sicrhau ein bod bob amser yn dangos parch llawn at y gymuned, yr amgylchedd a'n gweithlu

**www.ccsheme.org.uk**

**Oriau gwaith safonol y safle yw:**

**Dydd Llun – Gwener:** 7:30am-6:00pm

**Dydd Sadwrn:** Ar drefniant.

Ni ddylai fod unrhyw waith swnllyd cyn 8:00am

## Eisiau siarad â ni?

Rydym yn deall y byddwch am wybod beth sy'n digwydd yn eich ardal. Mae ein tîm ar gael i ateb unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd gennych, ac maent yn falch o glywed gennych. Os oes gennych unrhyw brosiectau cymunedol y credwch y gallai Bouygues UK gymryd rhan ynddynt, cysylltwch â thîm y safle isod.

**Dylan Jones**
**Rheolwr Prosiect**
**Ffôn: 07879 262928**
**E-bost: dylan.jones@bouygues-uk.com**

**Nina Williams**
**Rheolwr Gwerth Cymdeithasol**
**Ffôn: 07503468780**
**E-bost: nina.williams@bouygues-uk.com**

hwb
Iechyd a Llesiant
Health and Wellbeing

Ariennir gan Llywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

Mewn partneriaeth â | In partnership with

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David
colegsirgâr
Actif – Chwaraeon a Hamdden / Sport and Leisure

BOUYGUES UK
BUILDING FOR LIFE